OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 3182 (Cy.298)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	- -	*17 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym	- -	*31 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 87(1) a (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol (**2**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 87(7) o'r Ddeddf honno ag Asiantaeth yr Amgylchedd, unrhyw gyrff neu bersonau y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol a diwydiant fel y gwêl yn briodol, ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill y gwêl yn briodol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Amcanion ansawdd aer ar gyfer bensen, carbon monocsid a phlwm

2.—(1) Diwygir yr Atodlen i Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn y Tabl yn Rhan I o'r Atodlen—

(a) ychwanegwch res arall sy'n ymwneud â bensen, ac

(i) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "Bensen: 5 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol";

(ii) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Y dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid cyflawni'r amcan" rhowch "31 Rhagfyr 2010"; a

(b) yn y rhes sy'n ymwneud â charbon monocsid, a'r golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "10" yn lle "11.6" a rhowch "dyddiol uchaf" ar ôl "cymedr 8 awr cyfredol".

(**1**) 1995 p.25; gweler adran 91(1) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 2000/1940 (Cy. 138).